Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.17 Yr awdurdod diogelu annibynnol

Cynllun Gwirio a Gwahardd – y newyddion diweddaraf

Efallai y gwyddoch yn awr fod cam cofrestru'r Awdurdod Diogelu Annibynnol o'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd ar stop er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth ailfodelu'r cynllun gan geisio cael un cymesur sy'n dangos synnwyr cyffredin unwaith eto. **O ganlyniad, mae cam cofrestru'r Awdurdod Diogelu Annibynnol o'r cynllun ar stop ac ni fydd yn cael ei lansio ar 26 Gorffennaf 2010.**

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref, Theresa May, fod diogelwch plant ac oedolion agored i niwed 'yn hollbwysig i'r llywodraeth newydd', ond bod sicrhau agwedd gyson yn hanfodol. Aeth yn ei blaen i ddweud, 'Rydym wedi gwrando ar feirniadaeth a byddwn yn ymateb gyda chynllun sydd wedi cael ei ailstrwythuro o ddifrif. Mae'n rhaid i grwpiau agored i niwed gael eu diogelu'n briodol mewn ffordd gymesur a synhwyrol. Bydd ail-lunio'r Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yn sicrhau hyn'.

Mae'r trefniadau canlynol yn bodoli eisoes dan y Cynllun, a byddant yn parhau:

- er mis Ionawr 2009, bu'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn gwneud penderfyniadau annibynnol am waharddiadau. Bydd yn parhau i gadw dwy restr sy'n cael eu diweddaru'n gyson, un ohonynt yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a'r llall yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed;
- bydd y gofynion presennol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn parhau, a chaiff y rheini sy'n gymwys i gael y cyfryw archwiliadau barhau i wneud cais amdanynt;
- mae'n dal yn ddyletswydd gyfreithiol i gyflogwyr gyfeirio gwybodaeth at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol os ydynt wedi symud neu wedi diswyddo unigolyn gan eu bod wedi peri niwed neu gan fod perygl iddynt niweidio aelod o grŵp agored i niwed.

Mae cwmpas y broses ailfodelu – a gydlynir gan y Swyddfa Gartref mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd a'r Adran Addysg – wrthi'n cael ei gwblhau. Mae'r ddau ymgynghoriad presennol –Yr Angen Parhaus am Gategori Gweithgareddau a Reolir yn y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd A Cyngor a gofynion statudol, ar gyfer datgeliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol at ddibenion diogelu, o ran gweithwyr sydd eisoes wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol – ar agor tan 9fed Gorffennaf, sef y dyddiad cau:
www.dcsf.gov.uk/consultations/

Nid yw'n glir eto sut y bydd model newydd y Llywodraeth ar gyfer y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yn effeithio ar gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn y dyfodol.

Mae WCVA yn ymwybodol y bydd cyhoeddi ailfodelu'r Cynllun Gwirio a Gwahardd yn golygu bod rhaid i sefydliadau ailfeddwl am eu polisïau a'u gweithdrefnau. Mae gan CRU WCVA gynlluniau ar gyfer rhaglen gynghori ac arwain newydd i helpu gyda chyflwyno'r ffurflen gais newydd a deall unrhyw newidiadau sy'n codi o leihau'r Cynllun Gwirio a Gwahardd yn gytbwys o ganlyniad i adolygiad y Llywodraeth.

Gwybodaeth bellach

WCVA CRU
Ffôn: 0800 0197 391
Ffacs: 01745 357593
cru@wcva.org.uk
www.wcva-cru.org.uk

Awdurdod Diogelu Annibynnol
www.isa-gov.org.uk

Swyddfa Cofnodion Troseddol
www.crb.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:07/07/2010

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk